

Cynaliadwyedd : Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

Mehefin 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynaliadwyedd :

Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021

Mehefin 2021





Cynnwys

Cyflwyniad	7
Crynodeb o berfformiad.....	9
Cynnydd yn erbyn targedau	10
Ynni	13
Gwastraff ac Adnoddau	15
Teithio	17
Effeithiau eraill	18
Y Dyfodol - Ffarwel Carbon.....	21
Rheoli Amgylcheddol	24
Atodiad A - Tablau Data	25



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cyflwyniad



Mae digwyddiadau rhyfeddol y flwyddyn ddiwethaf hon wedi newid y ffordd y defnyddiwyd yr ystâd yn sylweddol, gan arwain at newidiadau pwysig o ran ein heffeithiau amgylcheddol.

Nid yw ein staff wedi teithio ar gyfer busnes ac maent wedi gweithio gartref yn bennaf. Cynhaliwyd ein busnes swyddogol drwy gymysgedd o fformatau hybrid a chwbl rithwir. Mae hyn wedi golygu arbedion ar gyfer rhai effeithiau, a chyfle i weld lle mae angen mwy o hyblygrwydd yn ein hadeiladau i sicrhau'r arbedion mwyaf posibl mewn meysydd eraill.

Ond mae hefyd wedi caniatáu inni wireddu newid sy'n bosibl - lle gall staff weithio'n fwy hyblyg a sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a gallwn addasu ein hadeiladau i ddarparu ar gyfer yr hyn sy'n debygol o arwain at newidiadau parhaol yn y ffordd y maent yn cael eu defnyddio.

Edrychwn yn ôl ar lwyddiannau ein strategaeth lleihau carbon ddiweddaraf, ac edrychwn ymlaen at ein nod newydd o ddod yn sefydliad *carbon niwtral net*.

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc



SWRTH DDWR A THANE

Crynodeb o berfformiad

Mewn blwyddyn anghyffredin, y math y gobeithiwn na fyddwn fyth yn gweld ei thebyg, mae'r ffordd y mae ein staff yn gweithio a'n hadeiladau'n cael eu defnyddio wedi newid yn sylweddol, ac mewn rhai ffyrdd, yn barhaol. Mae'r pandemig wedi golygu bod pobl wedi gweithio gartref, ni chynhaliwyd digwyddiadau ar y safle, a chynhaliwyd y rhan fwyaf o fusnes y Senedd yn rhithwir, ar-lein.

Mae hyn, wrth gwrs, wedi golygu newidiadau sylweddol o ran ein heffaith amgylcheddol, gyda gostyngiadau amlwg yn y defnydd o gyfleustodau, a chwymp enfawr ym mhob dull o deithio. Mae ein prif darged, sef lleihau *allyriadau ynni*, wedi disgyn eto eleni, er yr hoffem dynnu sylw at y ffaith iddo gael ei haneru yn ystod oes ein Strategaeth Carbon ddiweddaraf erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf - ein blwyddyn *arferol* ddiwethaf.

Rydym wedi parhau i gynnal a chadw'r ystâd gan ystyried effeithlonrwydd amgylcheddol, wrth ganolbwyntio ar iechyd ein staff, ein contractwyr a'n hymwelwyr. Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i gynhyrchu Strategaeth Carbon Niwtral newydd, a fydd yn paratoi'r ffordd i'n sefydliad fod yn garbon niwtral net erbyn 2030. Bydd llawer o'r addasiadau yn y Strategaeth yn adeiladu ar waith blaenorol i leihau ein ôl troed ynni a theithio, gan gynnwys newidiadau er mwyn parhau i wneud gweithio hyblyg mor hawdd ac effeithiol â phosibl yn y dyfodol.

Mae ein gwaith amgylcheddol wedi parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n ffurfiol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001.




Cynnydd yn erbyn targedau

O ystyried natur ryfeddol y flwyddyn ddiwethaf, a'r ffaith bod y rhan fwyaf o staff wedi symud i drefniadau gweithio gartref, bu gostyngiad amlwg yn ein heffeithiau amgylcheddol. Mae'r rhain yn arbennig o amlwg wrth adolygu ein perfformiad yn erbyn targedau allweddol.

Fel y dywedwyd gennym o'r blaen, nid ydym am ddathlu'r 'cyflawniad' hwn o ystyried yr amgylchiadau a achosodd i hyn ddigwydd. Yn lle hynny, byddwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn arferol olaf pan oedd gennym feddiannaeth lawn o'r ystâd - 2019/20, a'r llwyddiannau yr oeddem yn gallu eu dangos hyd at yr adeg honno.

Rydym wedi cyrraedd ein prif darged o leihau allyriadau ynni 30 y cant yn ystod oes y strategaeth yn rhwydd - gostyngiad o 49 y cant. Roedd hyn yn cynnwys yr effeithiau buddiol sy'n dod o ganlyniad i ostwng cynnwys carbon trydan grid y DU dros amser, ynghyd â nifer o fesurau effeithlonrwydd a wnaethom i'n hadeiladau. Roeddent yn cynnwys agweddau mwy gweladwy fel goleuadau LED a synwryddion i ddiffodd goleuadau, yn ogystal ag offer llai amlwg fel pypiau a ffaniau sydd wedi cael eu disodli gan ddewisiadau amgen mwy effeithlon.



Hanerodd ein ffigur allyriadau ynni, heb gynnwys y flwyddyn ddiwethaf hyd yn oed

Rydym wedi cyrraedd ein prif darged o leihau allyriadau ynni 30 y cant yn ystod oes y strategaeth yn rhwydd - gostyngiad o 49 y cant. Roedd hyn yn cynnwys yr effeithiau buddiol sy'n dod o ganlyniad i ostwng cynnwys carbon trydan grid y DU dros amser, ynghyd â nifer o fesurau effeithlonrwydd a wnaethom i'n hadeiladau. Roeddent yn cynnwys agweddau mwy gweladwy fel goleuadau LED a synwryddion i ddiffodd goleuadau, yn ogystal ag offer llai amlwg fel pypiau a ffaniau sydd wedi cael eu disodli gan ddewisiadau amgen mwy effeithlon.

Roedd effeithlonrwydd teithio mewn car ar gyfer busnes wedi gwella deirgwaith yn fwy na'n targed gwreiddiol o 10 y cant erbyn diwedd y llynedd, diolch yn rhannol i'r ffaith bod fflyd fach y Senedd wedi'i lleihau i un car trydan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ein staff wedi parhau i wneud dewisiadau amgen mwy effeithlon o ran eu tanwydd ar gyfer cymudo hefyd. Rydym hefyd wedi mynd ati i annog hyn drwy ychwanegu pwyntiau gwefru a mannau parcio wedi'u neilltuo ar gyfer cerbydau trydan.

Rydym wedi cael gwared ag elfen tirlenwi ein ffrydiau gwastraff yn raddol yn ystod oes y strategaeth ddiweddaraf hon - gan ddargyfeirio'r cyfan bellach i opsiynau ailgylchu ac adfer ynni. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cael gwared â phlastig o'r ystâd hefyd, pwnc sy'n cael llawer o sylw yn y parth cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn. Roeddem wedi cynllunio gwaith ychwanegol, rhywfaint ohono wedi'i ysgogi gan waith Senedd leuenctid Cymru, sydd wedi'i ohirio oherwydd y pandemig, ond byddwn yn parhau i gael gwared ar ffynonellau plastig untro lle mae hynny'n bosibl yn y dyfodol.

Mae ein defnydd o ddŵr wedi amrywio yn ystod oes y strategaeth, wrth inni reoli problemau a oedd yn cynnwys gollyngiadau, nifer yr ymwelwyr yn cynyddu ac yn gostwng, a thrafferthion gyda mesuryddion. Rydym bellach wedi mabwysiadu arfer mwy cyson ar gyfer adrodd - gan ddefnyddio darlleniadau mesuryddion mewnol, y dywedir eu bod yn fwy cyson dros amser, yn ogystal â ffigur *fesul deiliad* er mwyn darparu gwaelodlin o ran ein defnydd o ddŵr a mesur effeithiolrwydd dulliau lleihau yn well. Roedd gostyngiad sylweddol o ran y defnydd o ddŵr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond cynyddodd hynny rhywfaint erbyn diwedd 2019/20. Byddwn yn parhau i gymryd camau i arbed dŵr lle bo modd, gan fynd i'r afael â'r gosodiadau yn y Pierhead fel blaenoriaeth gyntaf.

Amcanion	Targedau	Cynnydd
Lleihau ôl-troed carbon	Lleihau allyriadau ynni 30 y cant arall erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar y waelodlin 2012/13)	Cyflawnwyd. 49 y cant yn is na'r flwyddyn waelodlin. Gostyngiad o 10 y cant ar ffigwr y llynedd.
	Gwella effeithlonrwydd teithio mewn car ar gyfer busnes 10 y cant erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar waelodlin 2013/14)	Cyflawnwyd. 32 y cant yn fwy effeithlon na'r flwyddyn waelodlin.
Lleihau effaith gwastraff	Peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2020/21	Cyflawnwyd. Nawr yn gweithredu ar sail anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi
	Trosglwyddo o reoli gwastraff i reoli adnoddau'n gynaliadwy erbyn 2020/21	Y gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r gwaith ar becynnau plastig yn parhau.
Defnyddio llai o ddŵr	Defnyddio 5 y cant yn llai o ddŵr yfadwy ar draws yr ystâd erbyn 2020/21 (yn seiliedig ar waelodlin 2014/15)	Mae'r galw cyhoeddus yn dylanwadu'n bennaf ar y defnydd, ac eleni gwnaethom brofi rhai problemau cynnal a chadw. O ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd o 1.6 y cant dros y flwyddyn waelodlin.

Ynni

Mae dadansoddiad o ddata diwrnodau gradd yn dangos bod y flwyddyn gyfan ychydig yn oerach na'r llynedd, ond hefyd bod y tri mis diwethaf (yn ystod cyfnod gwresogi'r gaeaf) yn sylweddol oerach na'r misoedd ar ddechrau 2020. Er bod nifer y staff wedi gostwng yn sylweddol ar y cyfan, roedd angen amgylchedd gwaith cyfforddus o hyd i'r rhai a oedd yn bresennol yn yr adeiladau, felly ni wnaeth y defnydd o nwy leihau llawer o'i gymharu â'r llynedd.

Mae hyblygrwydd ein seilwaith i ymateb i lai o staff yn rhywbeth y bydd ein Strategaeth Carbon Niwtral nesaf yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Mae hefyd yn arbennig o berthnasol o ystyried bod newidiadau hirdymor i batrymau gwaith yn debygol. Byddwn yn ceisio gwednewid ein swyddfeydd i wneud gwell defnydd o le a lleihau'r defnydd o ynni ar ddiwrnodau pan nad oes llawer o bobl yn yr adeilad.

Defnyddiwyd 25 y cant yn llai o drydan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Tra bod rhai cyfleusterau yn yr adeilad fel mesurau diogelwch, gweinyddwyr data a phympiau gwresogi wedi parhau i fod yn weithredol drwy gydol y cyfnod hwn, cafodd offer oeri gorfodol ei ddiffodd i leihau'r risg o heintiau, ac mae'r galw am bŵer bach a goleuadau wedi gostwng yn sylweddol. Y llynedd, nodwyd cynnydd sylweddol yng nghost trydan, ond eleni rydym wedi gweld cynnydd mwy cymedrol o 3 y cant mewn cyfraddau unedau.

Rydym wedi bachu ar y cyfle yn sgil y ffaith bod yr ystâd yn dawelach i symud ymlaen gyda sawl prosiect cyfleusterau, a bydd rhai ohonynt yn dangos llai o alw am drydan yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r Strategaeth Carbon newydd, er enghraifft, yn ymrwymo i gael mwy o oleuadau LED, ond llwyddwyd i gwblhau llawer o'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Rydym hefyd wedi diweddarau'r rheolaethau ar gyfer y pwmp gwres o'r ddaear yn y Senedd. Mae hwn eto yn rhywbeth y gobeithiwn y byddwn yn sylwi ar arbedion cysylltiedig yn ei sgil y flwyddyn nesaf. Ein ffocws ar gyfer gwaith prosiect yn y tymor byr fydd adeiladu effeithlonrwydd - gwneud offer fel y System Rheoli Adeilad yn fwy effeithiol o ran lleihau'r defnydd o ynni yn unol â'r ffaith bod llai o bobl yn yr adeiladau.



Gwastraff ac Adnoddau

Roedd cynhyrchiant gwastraff wedi gostwng yn sylweddol eleni; eto o ganlyniad uniongyrchol i'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r adeiladau. Roedd cyfanswm y tunelledd o wastraff bron i hanner y cyfanswm a gafwyd y llynedd, gyda'r gostyngiad yn nifer y bobl ar y safle yn cael ei wrthbwyso i ryw raddau gan gynnydd yn y gwaith prosiect a oedd yn digwydd ar yr ystâd, yn ogystal â gwastraff PPE.




Mae'r angen i sicrhau bod eitemau fel PPE yn cael eu gwaredu'n briodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi golygu, er nad oes dim o'n gwastraff wedi cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, bod canran uwch o'r gwastraff a gynhyrchwyd wedi cael ei anfon i gyfleuster adfer ynni.

Cafodd y defnydd lleiaf posibl o adeilad y Senedd ei adlewyrchu yn ei ffigurau o ran y defnydd o ddŵr, a oedd wedi lleihau'n sylweddol. Roedd cyfanswm y dŵr glaw rydym yn ei gasglu a ddefnyddiwyd yn yr adeilad (a ddefnyddir yn bennaf yn y toiledau) wedi gostwng oddeutu 70 y cant - gostyngiad sy'n cael ei adlewyrchu yn ein bil dŵr ar gyfer yr ystâd gyfan. Bu llai o ostyngiad mewn costau cyflenwi a gwaredu dŵr oherwydd bod y biliau am y defnydd ohonynt yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol wedi disgyn i'r flwyddyn hon.

Mae faint o bapur sy'n cael ei ddefnyddio yn fetrig arall sy'n dangos gostyngiad sylweddol - bu gostyngiad o fwy na 70 y cant yma hefyd. Gyda nifer uchel o offerynnau statudol yn cael eu pasio, ac adroddiadau sydd angen eu hargraffu, yn ogystal â'r galw am arwyddion newydd sy'n gysylltiedig â Covid o amgylch yr ystâd, bu galw am wasanaethau ein Huned Gopïo. Ond mae'r ffaith bod nifer y staff a oedd yn bresennol ar y safle wedi bod mor isel yn golygu nad oedd papur wedi cael ei ddefnyddio yn ein hargraffwyr swyddfa arferol.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau drwy fframweithiau Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gydlynir yn ganolog, ac rydym yn gofyn yn benodol am bren sy'n dod o ffynonellau y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd mewn unrhyw ddodrefn y byddwn yn eu prynu. Caiff ein

contractau mawr eu hasesu o ran eu cymwysterau cynaliadwyedd, gyda meini prawf cysylltiedig yn aml yn cael eu hychwanegu at fanylebau tendrau.



Teithio

Yn ystod y flwyddyn eithriadol hon, mae hawliadau am gostau teithio wedi gostwng tua 90 y cant. Yn ystod y ddau brif gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol, deddfwyd yn erbyn teithio, a chynghorwyd yn ei erbyn am lawer o weddill y flwyddyn.

Nid yw ein Haelodau na'n staff wedi teithio at ddibenion gwaith mewn ymateb i'r pandemig. Yn hytrach, maent wedi troi at ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu mwy seiliedig ar dechnoleg. Mae cyfarfodydd gydag etholwyr wedi cael eu cynnal yn rhithwir drwy alwadau fideo, ynghyd â chyfarfodydd tîm, a hyd yn oed cyrsiau hyfforddi.

Ar wahân i deithio ar gyfer busnes, mae effeithiau ehangach y pandemig yn golygu bod llawer llai o staff ac ymwelwyr wedi bod yn cymudo i'r ystâd. Mae wedi bod yn bosibl i'r rhan fwyaf o staff y Comisiwn gefnogi busnes ein Haelodau o bell, gyda chnewyllyn o staff yn parhau i ddod i'r ystâd i gynorthwyo gyda diogelwch, TG a gwaith cynnal a chadw.

Dangosodd ein harolwg teithio diweddaraf, a gynhaliwyd ychydig cyn teimlo effaith Covid, fod staff yn defnyddio cerbydau mwy effeithlon nag erioed, a bod nifer gynyddol ohonynt yn dewis dulliau cynaliadwy o deithio. Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, ac mewn ymateb i rai o'r awgrymiadau yn yr arolwg, rydym wedi manteisio ar y cyfle i gynyddu'r cyfleusterau storio ar gyfer beicwyr - rhywbeth sydd hefyd yn helpu i gadw pellter cymdeithasol yn y llochesi beic. O ystyried y cynnydd yn eu poblogrwydd, rydym hefyd wedi cyflwyno cyfleusterau ar gyfer pobl sy'n defnyddio beiciau trydan.

Chwith: Mae llawer o'n staff eisoes yn defnyddio dulliau teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau byrrach i'r gwaith, ac oddi yno.



Rhai o'r planhigion a'r bywyd gwyllt sy'n ffynnu o amgylch ystâd Bae Caerdydd eleni.



Effeithiau eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cynnwys pob rhan o fywydau pobl yng Nghymru, mae ein gweithrediadau ein hunain yn gymharol gyfyngedig, yn bennaf i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng Ngogledd Cymru.

Ni ystyrir bod y safleoedd hyn mewn perygl o effeithiau newid yn yr hinsawdd fel llifogydd (mae'r Bae yn cael ei warchod gan Forglawdd Bae Caerdydd), ond bydd ein Strategaeth Carbon Niwtral sydd ar ddod yn cynnwys mesurau sy'n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol ansicr. Bydd buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, er enghraifft, yn sicrhau bod o leiaf rhywfaint o'n cyflenwad ynni yn ddiogel ac yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw anwadalrwydd yn y marchnadoedd.

Mae ein hystâd mewn lleoliad trefol, ac nid yw ein gweithgareddau i'w chynnal yn effeithio'n uniongyrchol ar ardaloedd gwledig. Un effaith fach, gadarnhaol y gellid ei dehongli fel un sy'n effeithio ar fywyd gwledig yw ein bod yn prynu cymaint o'r cyflenwadau bwyd ar gyfer ein gwasanaeth arlwyo o Gymru.

Mae ein cefnogaeth i fioamrywiaeth y safle wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi dal ati i dorri cyn lleied â phosibl o'r llain blodau gwyllt, ac wedi cynnal a chadw'r gerddi yn y maes parcio; mae mwy o bryfed nag erioed o'r blaen i'w gwed ym mhob un ohonynt. O ran y Pierhead, rydym wedi cyflwyno trydydd cwch gwenyn yno eleni, gan fod y ddau gwreiddiol wedi cael eu blwyddyn fwyaf cynhyrchiol erioed - gan gynhyrchu dwbl y cnwd mêl a wnaethant yn 2019.

Bydd ein Strategaeth Carbon yn parhau i adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud i wella bioamrywiaeth y safle yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae'n cynnwys ymrwymiad i ddyblu'r mannau gwyrdd cyffredinol ar yr ystâd drwy gydol ei oes.



Y Dyfodol - Ffarwel Carbon

Wrth i'n strategaeth carbon gyfredol ddod i ben, rydym eisoes wedi paratoi'r un newydd. Gobeithio mai hon fydd yr un olaf.

Dyna ni, rydym wedi'i ddweud, ac mae'n gwneud i ni deimlo'n gyffrous. Rydym yn llawn cyffro i adeiladu ar y gwaith blaenorol a wnaed gennym ac amlinelli ein nod terfynol. Roedd y ddwy strategaeth a gynhaliwyd gennym cyn y strategaeth hon yn llwyddiannus, ac rydym yn gweithredu ar hanner yr ôl troed carbon a oedd gennym pan ddechreuon ni, ond ni allwn ddal ati am byth. Can fynd â ni at 2030, mae'n bleser gennym gyhoeddi ein cynlluniau i fod yn *garbon niwtral net* erbyn y dyddiad hwnnw.

Yn wir, efallai y byddwn yn diweddarau'r Strategaeth drwy gydol ei hoes wrth i dechnolegau a blaenoriaethau newydd godi, a does dim amau y byddwn yn gosod nodau cynaliadwyedd ar ôl iddi ddod i ben, ond ni allwn ddal ati i leihau carbon am byth.

Mae ein Strategaeth Carbon Niwtral newydd, sydd ar gael yn llawn ar ein gwefan, yn cynnwys ystod o fesurau gwella sydd wedi'u cynllunio i leihau ein hól troed i fod mor isel â phosibl, cyn ceisio opsiynau gwrthbwysu yn olaf er mwyn cyrraedd niwtraliaeth net. Mae'r map ffordd o'r mesurau wedi'i gynnwys ar y dudalen nesaf.

Hwyl fawr i Garbon

Isod mae crynodeb o'r cerrig milltir yn ein Strategaeth Niwtral o ran Carbon Neutral Strategy 2021-2030. Mae'r Strategaeth lawn ar gael ar ein gwefan www.senedd.cymru

B

TARGED TYMOR BYR: (2021-2023)



Newid ymddygiad a chynnal a chadw da

100



Gwelliannau BMS (tri adeilad)

59



Monitro – meddalwedd a mesuryddion ychwanegol

52



Goleuadau LED: parhau i'w hamnewid ac adolygu'r rheolaethau

30

= ARBED 241 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN

C

TARGED TYMOR CANOLIG: (2023-2026)



Ailwampio unedau trin aer

42




Cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal

132



Symud Tŷ Hywel yn ôl i awyru goddefol

97




Gosod PV solar (Senedd a Thŷ Hywel)

60

= ARBED 331 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN

H

TARGED TYMOR HIR: (BY 2030)



Pympiau gwres o'r awyr ar gyfer cyflenwad dŵr poeth

10



Addasu'r system teithio a chynhaliaeth i dalu am deithio mewn cerbydau trydan yn unig gan Aelodau o'r Senedd ¹

82

= ARBED 10192 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN

¹ ar sail lefel gyfredol yr hawliadau ceir preifat a mabwysiadu cardiau RFID, ffigur carbon ar gyfer milltiroedd mewn car maint canolig.



Rheoli Amgylcheddol

Mae Comisiwn y Senedd wedi cynnal system rheoli amgylcheddol ffurfiol ers mwy na degawd.

Rydym yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf i ni ein hunain, a dyna pam rydym yn cynnal system rheoli amgylcheddol sy'n cael ei harchwilio'n allanol yn erbyn gofynion ISO14001. Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol. Mae gennym dîm o archwilwyr mewnol hyfforddedig sy'n gwirio'r safle ffisegol a'n rheolaethau gweithredol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae'r archwilwyr hefyd yn gwirio am risg llygredd ac yn edrych am arbedion effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y DU, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.



Atodiad A - Tablau Data

Dangosyddion Perfformiad Allweddol	2012/13	2014/15	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr net (cwmpasau 1, 2 a 3), tCO ₂ e	2,314	2,252	1,841	1,654	1,296	1150	746
Cyfanswm yr allyriadau ynni, tCO ₂ e	1880 (llinell sylfaen)	1,800	1,563	1,364	1,066	962	730
Gwastraff a aiff i safleoedd tirlenwi, mewn tunelli	17.2	4.7	5	4	0	0	0
Cyfradd ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer, canran o'r cyfanswm	83%	95%	96%	97%	100%	100%	100%
Cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd, m ³	10,069	6,177 (llinell sylfaen)	5,347	4,158	6,064	6,281	1,783
Cyfanswm yr allyriadau teithio ar fusnes, tCO ₂ e	227	252	206	207	178	180	22*
Defnyddio papur (miliwn o ddalennau)	2.24	2.09	1.99	2.92	2.73	2.33	0.86

* Eithriwyd teithio AS a Staff Cymorth AS Chwefror a Mawrth 2021 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.